

DAVIES, JOSEPH (?- 1831?), cyfreithiwr a sylfaenydd y cylchgrawn Y brud a sylwydd

Enw: Joseph Davies

Dyddiad marw: 1831?

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cyfreithiwr a sylfaenydd y cylchgrawn Y brud a sylwydd

Maes gweithgaredd: Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Thomas Parry

Ni wyddys dim yn sicr am y gwŷr hwn. Dywedir mai yn Llanfair-ym-Muallt y ganwyd ef, ei fod yn gyfreithiwr yn Lerpwl, ac iddo farw yn 1831. Ef a gychwynnodd y cylchgrawn, **Y Brud a Sylwydd**. Daeth wyth rhifyn ohono allan, rhwng Ionawr ac Awst 1828. O'r trydydd rhifyn ymlaen caed ysgrifau Saesneg yn ogystal â rhai Cymraeg. Yr oedd y golygydd yn credu honiadau ei gyfnod ynglŷn â hynafiaeth yr iaith Gymraeg, ac yr oedd yn dadelfennu geiriau yn y dull a gymeradwywyd gan **William Owen Pughe**. Yr oedd yn credu hefyd mewn llunio geiriau Cymraeg newydd ar gyfer anghenion yr oes, a dyna brif diddordeb ei gylchgrawn.

Awdur

Syr Thomas Parry, (1904 - 1985)

Ffynonellau

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733707

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Arddull APA



Parry, T., (1953). DAVIES, JOSEPH (?- 1831?), cyfreithiwr a sylfaenydd y cylchgrawn Y brud a sylwydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-JOS-1831>

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government